**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**CERDDORIAETH FYW – O Dan Do**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO – O Dan Do**
**PERFFORMIADAU O DDAWNS – O Dan Do**
**UNHRYW BETH SY'N DEBYG I GERDDORIAETH FYW neu CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO neu PERFFORMIADAU O DDAWNS – O Dan Do**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS – O Dan Do a Tu Allan**

**CYFLENWI ALCOHOL – Ar y Safle'n Unig**

**GWEITHGAREDDAU UCHOD:**
**1900 SADWRN 2AIL MEHEFIN 2018– 0200 SUL 3ydd MEHEFIN 2018**

**Oriau agor y safle**

**1800 SADWRN 1af MEHEFIN 2018 – 0300 SUL 2ail MEHEFIN 2018**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**AR Y SAFLE'N UNIG**

**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

**a) Cyffredinol**

MAE'R DIGWYDDIAD HWN AR GYFER RALI SIROL FLYNYDDOL CLYBIAU FFERMWYR IFANC CEREDIGION A DYMA UCHAFBWYNT Y FLWYDDYN I'N SEFYDLIAD. MAE 18 O GLYBIAU A THROS 700 O AELODAU'N DOD AT EI GILYDD I GYSTADLU MEWN NIFER O GYSTADLAETHAU GWAHANOL. TREFNIR DAWNS AR GYFER NOSON Y RALI SIROL. Y LLYNEDD, CFFI LLedrod OEDD YN FUDDUGOL YN Y RALI AC FELLY Y NHW FYDD YN CROESAWU'R RALI YN 2019, MEWN PARTNERIAETH Â CFFI CEREDIGION. CYNHELIR DAWNS Y RALI AR FFERM YNYSFORGAN LLEDROD ABERYSTWYTH SY23 4HX . CYNHELIR Y DDAWNS MEWN SIED AMAETHYDDOL FAWR. BYDD DIGONEDD O GYMORTH A PHROFIAD AR GAEL I'R SIR A'R CLWB YN YSTOD Y NOSON I SICRHAU BOD Y DIGWYDDIAD YN UN LLWYDDIANNUS, A'I FOD YN BODLONI'R HOLL AMCANION TRWYDDEDU.

**b) Atal troseddau ac anrhefn**

MI FYDD GENNYM O LEIAF 10 O STIWARDIAID AR DDYLETSWYDD YN YSTOD Y NOSON, A BYDDANT WEDI'U LLEOLI GER Y FYNEDFA I'R FFORDD, YN Y MAES PARCIO A'R FYNEDFA I ARDAL Y SIED, A GER POB MYNEDFA/ALLANFA FRYS/ARDAL Y LLWYFAN. MI FYDD GENNYM HEFYD 12 O STAFF DIOGELWCH COFRESTREDIG GER Y BRIF FYNEDFA I'R SAFLE, AC O FEWN Y SIED EI HUN. BYDD Y SWYDDOGION DIOGELWCH HYN YN CYNNWYS DAU SWYDDOG BENYWAIDD A BYDD O LEIAF HANNER (50%) Y STAFF YN DDWYIEITHOG. O 6OR GLOCH FE FYDD 4 SWYDDOG DIOGELWCH YN GWEITHIO

NI FYDDWN YN CANIATÁU MYNEDIAD NAC YN GWERTHU ALCOHOL I UNRHYW UN SY'N FEDDW, YN YMOSODOL, NEU'N YMDDWYN YN AFREOLUS. GOFYNNIR I UNRHYW RAI SY'N YMDDWYN FELLY I ADAEL, A HYSBYSIR YR HEDDLU OS OES ANGEN.

**c) Digolewch cyhoeddus**

UN O'R PRIF YSTYRIAETHAU O RAN DIOGELWCH CYHOEDDUS YW SICRHAU BOD EIN SEFYDLIAD YN CYMRYD YR HOLL GAMAU ANGENRHEIDIOL I WARANTU BOD PAWB SY'N MYNYCHU'R DIGWYDD YN CYRRAEDD A GADAEL YN DDIOGEL. BYDDWN YN SICRHAU BOD Y BRIF FYNEDFA I'R MAES PARCIO WEDI'I GOLEUO'N DDA. MI FYDD YNA O LEIAF 3 STIWARD MEWN SIACEDI FFLWOROLAU YN Y MAES PARCIO A GER Y BRIF FYNEDFA, A BYDD NIFER O STIWARDIAID YCHWANEGOL WRTH LAW AR DDIWEDD Y DDAWNS, PAN FYDD POBL YN GADAEL. NI CHANIATEIR UNRHYW BOTELI GWYDR, GWYDRAU CWRW, CANIAU NEU BOTELI GWIROD AR Y PRIF SAFLE. BYDD GAN SWYDDOGION DIOGELWCH YR HAWL I CHWILIO UNRHYW FAG NEU FAG LLAW NEU

DDILLEDYN OS OES YNA UNRHYW AMHEUAETH EI FOD YN CYNNWYS POTELI NEU EITEMAU ANNIOGEL. BYDD Y SWYDDOGION DIOGELWCH YN GWNEUD HYN YN ÔL EU DISGRESIWN. GOSODIR HYSBYSIAD GER Y FYNEDFA I'R DIGWYDDIAD YN NODI Y GALL POBL GAEL EU CHWILIO. WRTH CHWILIO, CYMERIR UNRHYW EITEM ARALL ALL FOD YN BERYGLUS ODDI AR YR UNIGOLYN OS BERNIR Y GELLID EI DDEFNYDDIO I ACHOSI NIWED. BYDDWN YN SICRHAU BOD YNA FYNEDIAD DIRWYSTR I UNRHYW GERBYD ARGYFWNG SYDD EI ANGEN AR Y SAFLE. BYDD AMBIWLANS SANT IOAN YN BRESENNOL AR Y SAFLE TRWY GYDOL Y DIGWYDDIAD. GOSODIR DIFFODDWYR TÂN MEWN MANNAU PRIODOL O AMGYLCH Y SAFLE AC O FEWN CYRRAEDD Y LLWYFAN. BYDD DŴR A BLANCEDI TÂN AR GAEL HEFYD. BYDD YSWIRIANT ATEBOLRWYDD CYHOEDDUS MEWN GRYM A BYDD EIN HYSWIRWYR YN CAEL GWYBOD AM Y CAIS HWN.

**d) Atal niwsans cyhoeddus**

BYDDWN YN HYSBYSU TRIGOLION YR ARDAL. BYDD GENNYM DDIGON O STIWARDIAID I GADW GOLWG AR Y SIED TRWY GYDOL Y NOS. AR DDIWEDD Y NOSON, BYDD DIGON O STIWARDIAID AR GAEL I SICRHAU BOD PAWB YN GADAEL Y SAFLE MOR GYFLYM A DIOGEL Â PHOSIB, GAN LEIHAU'R DRAFNIDIAETH A'R PERYGL O DDAMWEINIAU AR Y FFORDD.FE FYDD NA MIWSIG BYW YN CAEL EU CHWARAE YN YSTOD Y DYDD GYDA CYSTADLEITHE OND DIM OND YN ARDAL Y BAR AM Y DAWNS YN Y NOS

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

NI CHANIATEIR MYNEDIAD I DDAWNS Y RALI I BLANT DAN 16 OED ONI BAI EU BOD YNG NGHWMNI OEDOLYN CYFRIFOL. DARPERIR BOB UNIGOLYN 18 OED A THROSODD Â BAND GARDDWRN. OS AMHEUIR BOD UNRHYW UN DAN 18 OED, GOFYNNIR AM BRAWF ADNABOD AC OS NA ELLIR DARPARU UN, NI FYDD YR UNIGOLYN HWNNW'N CAEL BAND GARDDWRN AC NI WERTHIR ALCOHOL IDDO/IDDI. BYDD STAFF Y BAR YN CAEL EU BRIFFIO CYN Y DIGWYDDIAD A BYDD GAN YR HOLL STAFF BROFIAD O WEINI ALCOHOL. NI FYDD EIN STIWARDIAID A'N STAFF DIOGELWCH YN GODDEF UNRHYW YFED DAN OED, A BYDD Y STAFF DIOGELWCH YN DELIO Â'R MATER HWN YN ÔL EU DISGRESIWN. MI FYDD BAR DIODYDD YSGAFN AR GAEL HEFYD AR GYFER RHAI SYDD DAN 18 OED A'R RHAI NAD YDYNT AM YFED ALCOHOL YN Y DIGWYDDIAD. BYDD YR HOLL SWYDDOGION, ARWEINWYR CLYBIAU A STIWARDIAID SY'N BRESENNOL YN Y DIGWYDDIAD WEDI'U GWIRIO GAN Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS).

